# Gwasanaeth Nyrsio Ysgol a Plant sy'n Derbyn Gofal

Cod QR Gwefan Nyrsio Ysgol a Plant sy'n Derbyn Gofal

Cyf /05/rhiant/09/24

Annwyl Riant / Gwarcheidwad,

Mae'r Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion yn ymwybodol bod eich plentyn wedi dechrau yn nosbarth derbyn yn yr ysgol hon yn ddiweddar a hoffem gyflwyno ein hunain i chi.

Nod y Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion yw hybu iechyd y boblogaeth oedran ysgol ac yn sicrhau bod cymorth, cyngor a chefnogaeth ar gael i blant, rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr.

Pan fyddant yn mynd i mewn i'r dosbarth derbyn, caiff gofal eich plentyn ei drosglwyddo o'r Ymwelydd Iechyd i'r Nyrs Ysgol. Mae gan bob ysgol fynediad i Nyrs Ysgol. Nod Nyrs yr Ysgol yw hysbysu, addysgu a chefnogi plant a phobl ifanc i wneud dewisiadau ffordd iach o fyw i'w galluogi i ddod yn oedolion iach.

Mae gwefan Y Gwasanath Nyrsio Ysgol (Gwelir y cod QR) a'r pecyn croeso ar gael i chi ar wefan ysgol eich plentyn ac fe'u darperir y gwybodath cyswllt isod.

Bydd aelod o'r tîm Nyrsio Ysgolion yn mynychu ysgol eich plentyn yn ystod y flwyddyn academaidd hon i gynnal sgrinio rheolaidd ar gyfer taldra, pwysau a golwg plant dosbarth derbyn.

Byddwn yn cysylltu â chi os bydd unrhyw un o'r canlyniadau sgrinio yn adnabod unrhyw bryderon. Fodd bynnag, os hoffech wybod y canlyniadau sgrinio, cysylltwch â'r Nyrs Ysgol.

**Os nad ydych yn dymuno i'ch plentyn gael eu taldra, pwysau a'u golwg wedi eu sgrinio gennym, rhaid i chi roi gwybod i'r Pennaeth yn ysgrifenedig ar unwaith.**

Os mai dyma'r achos, mae'n bwysig iawn eich bod yn gwneud trefniadau i'ch plentyn gael prawf golwg gydag Optometrydd (Optegydd) lleol, mae hwn yn wasanaeth am ddim i blant a chynghorir y dylai pob plentyn gael gwiriadau llygad **rheolaidd** gydag Optometrydd.

Hoffai'r Rhaglen Mesur Plant sy'n cael ei redeg gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddefnyddio'r mesuriadau Uchder a Phwysau i helpu i roi darlun o dwf plentyn yng Nghymru. Mae'r wybodaeth a ddefnyddir gan y Rhaglen Mesur Plant yn gwbl anhysbys. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn https://phw.nhs.wales/services-and-teams/child-measurement-programme/

**Os nad ydych yn dymuno i'r mesuriadau gael eu defnyddio gan y Rhaglen Mesur Plant, rhaid i chi roi gwybod i'r Pennaeth yn ysgrifenedig ar unwaith.**

Yr eiddoch yn gywir

Y Gwasanaeth Nyrsio Ysgolion

Ffoniwch y rhif canlynol er mwyn cysylltu efo y Nyrs Ysgol: 01639 862801 (9yb – 5yp)
E-bost: SBU.SchoolNursing@wales.nhs.uk

## School Nursing and Looked After Children Service